# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2186 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 11/09/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Jonathan Millard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Anne-Louise Clark (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2514 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2515 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br>Cynghorydd P. Edwards<br>Cynghorydd J. Hill<br>Cynghorydd C. Meredith<br>Cynghorydd K. Pritchard<br>Cynghorydd D. Wilkshire<br>Rheolwr Gyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2516 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2517 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2647 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 12 Chwefror 2020 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Cyfarfod Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020.<br><br>Yng nghyswllt yr ail bwynt ar y Ddalen Weithredu, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol na symudwyd ymlaen â gweithredu gan y bu ffocws swyddogion ar yr ymateb argyfwng i Covid-19. Cytunodd y Swyddog i edrych ar y cais a rhoi adroddiad yn ôl yn y cyfarfod nesaf.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2582 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2598 |
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | Cynigiodd y Cadeirydd fod cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu cynnal am 10.00 a.m.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor â'r llwybr gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2648 |
| Item Title | Blaenraglen Gwaith Arfaethedig y Pwyllgor Craffu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd gan Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>Teimlai Aelod ei bod yn bwysig yn yr hinsawdd bresennol fod y Flaenraglen Waith yn ddogfen y gellid ei diwygio i adlewyrchu gwaith cyfredol a'r deilliannau yng nghyswllt y pandemig Coronafeirws.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2653 |
| Item Title | Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n rhoi cyfle i Aelodau graffu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020 dan bwerau a ddirprwywyd gan y Prif Swyddog Adnoddau. Cyfeiriodd y Prif Swyddog yr Aelodau at yr wybodaeth perfformiad a data a dywedodd i'r Awdurdod yn 2019/2020 gymryd £10m mewn dyled hirdymor gan awdurdodau lleol (PWLB) yn lle benthyciadau sy'n aeddfedu neu i gyllido gwariant cyfalaf.<br><br>Mae'r asiantaethau graddio credyd wedi israddio nifer o sefydliadau ariannol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan nad ydynt mwyach yn diwallu meini prawf gofynnol yr Awdurdod ar gyfer cymeradwyaeth. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Swyddog fod yr Awdurdod wedi perfformio'n dda yn nhermau Rheoli Trysorlys yn yr hinsawdd ariannol presennol ac amlinellodd y pwyntiau allweddol:-<br><br>• Sicrhawyd adenillion buddsoddiad o £61,000 gyda chyfradd log gyfartalog o 0.46%. Roedd hyn ychydig yn is na'r gyfradd meincnod o |

| | |
|---|---|
| | 0.54% ond mae'n adlewyrchu na all yr Awdurdod fuddsoddi mewn gwrthbartïon sy'n talu cyfraddau uwch oherwydd gostyngiadau graddiad credyd. Mae hyn yn unol â pholisi osgoi risg yr Awdurdod lle mae sicrwydd y swm cyfalaf yw'r brif flaenoriaeth ar draul adenillion buddsoddi mwy cystadleuol.<br><br>• Gosodwyd cyfradd log gyfartalog o 1.09% ar fenthyciadau dros dro o gymharu â meincnod o 1.00%, gan ostwng cyn belled ag sy'n bosibl y llog sy'n daladwy gan yr Awdurdod. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd mewn cyfraddau marchnad yn dilyn y cynnydd o 1% mewn cyfraddau PWLB ym mis Hydref 2019 – mae hyn yn dystiolaeth o berfformiad da.<br><br>• Cydymffurfiwyd yn ystod y flwyddyn â holl derfynau'r Trysorlys a dangosyddion darbodus Rheoli Trysorlys a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol.<br><br>• Nid oedd unrhyw sefydliadau y gwnaed buddsoddiadau ynddynt yn ystod y cyfnod wedi cael unrhyw anhawster mewn ad-dalu buddsoddiadau a llog yn llawn. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i unrhyw golled ariannol fel canlyniad i'r hinsawdd economaidd anodd.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr enillion buddsoddiad a sicrhawyd a gofynnodd os y byddai'r gyfradd is yn golygu at unrhyw oblygiadau i'r gyllideb yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na ragwelir unrhyw bwysau cyllideb o'r gyfradd is a sicrhawyd, fodd bynnag nawr fod gan swyddogion well dealltwriaeth o effaith y PWLB, caiff hyn ei gynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol. Ychwanegodd y Prif Swyddog y rhoddir adroddiad i Aelodau os oes unrhyw bwysau yn dod i'r amlwg ar y gyllideb.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef bod Aelodau wedi craffu ar y gweithgaredd rheoli trysorlys a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020 ac ni roddwyd unrhyw sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. |

| Item ID | 2650 |
|---|---|
| Item Title | Datganiad Sefyllfa ar System Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) y Cyngor (Ebrill i Awst 2020) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Prif Swyddog Adnoddau (SIRO ar gyfer CCTV), y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar system CCTV y Cyngor ar gyfer y cyfnod yn ystod y pandemig Covid-19 o fis Ebrill i fis Awst 2020. Siaradodd y Prif |

| | |
|---|---|
| | Swyddog am yr adroddiad a rhoi trosolwg o'r wybodaeth perfformiad a'r data fel y'i manylir yn yr adroddiad. Daeth y Prif Swyddog Adnoddau i'r casgliad, er y bu problemau gweithredu lleol gyda chamerâu, bod y system CCTV yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth.<br><br>Nododd yr Aelod nad oedd camerâu wedi eu defnyddio oherwydd y pandemig a gofynnodd os y gellid yn awr osod y rhain mewn ardaloedd lle mae llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dipio anghyfreithlon o fewn y Fwrdeistref.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Partneriaethau a Llywodraethiant fod protocolau a gweithdrefnau yn eu lle yn nhermau materion diogelwch technegol a chymunedol wrth leoli camerâu. Mae angen tystiolaeth ddigonol i ddefnyddio camerâu mewn ardaloedd penodol. Os oes ardaloedd yn achosi pryder o fewn gwahanol wardiau, awgrymwyd y gellid trafod y rhain gyda'r Swyddog Diogelwch Cymunedol.<br><br>Mewn ymateb i bryderon pellach am leoliadau, dywedwyd y cynhelir adolygiad blynyddol o safleoedd camerâu CCTV. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i bob safle lle cawsant eu gosod i barhau'n 'fyw' yn unol ag ardaloedd problem.<br><br>Teimlai Aelodau ei bod yn bwysig cynnwys CCTV ar y Flaenraglen Gwaith a nododd y Swyddog bod Adroddiad Cynnydd Blynyddol i'w gyflwyno ym mis Chwefror 2021. Cytunwyd y byddid yn cyflwyno'r adroddiadau yn flynyddol i sicrhau ei fod yn cwmpasu cyfnod da i gael tystiolaeth ddigonol.<br><br>Credai Aelod y dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal â diweddariad ar gynnydd.<br><br>Cytunodd y Cadeirydd gyda'r sylwadau a wnaed a chafodd sicrwydd fod yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar y Flaenraglen Waith.<br><br>Nododd Aelod fod tanwariant ar y gyllideb CCTV a gofynnodd os y gellid defnyddio'r arian hwn i drin problemau gyda chamerâu nad ydynt yn gweithio mewn ardaloedd penodol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol nad oedd y problemau yn y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â'r offer ond gyda WiFi neu'r rhwydwaith. Hysbyswyd y cynhelir adolygiad o'r systemau CCTV bob dydd Llun a dydd Iau i ddynodi unrhyw broblemau cyn ac ar ôl y penwythnos. Yn nhermau tanwariant, dywedwyd yn y rhan fwyaf o achosion y byddai'r arian hwn yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn i drin unrhyw broblemau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor wedi ystyried a rhoi sylwadau ar y datganiad sefyllfa ar swyddogaeth CCTV yn ystod pandemig COVID-19. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 2651 |
|---|---|
| Item Title | Cefnogi Cydnerthedd Ariannol – Adroddiad Dilynol Archwilio Cymru |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi canfyddiadau'r adolygiad dilynol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ar eu ffrwd gwaith Cefnogi Cadernid Ariannol.<br><br>Atgoffodd y Prif Swyddog yr Aelodau am y gwaith a wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018 yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd y Cyngor yn nhermau uchafu cyfleoedd cyllid a chynnwys gofynion gwariant. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau i'r adolygiad ddod i'r casgliad fod angen i'r Cyngor ddatblygu diwylliant ariannol cryfach i barhau'n gadarn yn ariannol ac y cynigiwyd nifer o feysydd ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion ar gyfer gwella ac wedi gwneud cynnydd ar y cynigion ac wedi dynodi gwaith i'w wneud yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Prif Swyddog yr Aelodau at yr atodiad i'r adroddiad sy'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed ar bob un o'r meysydd gwella a ddynodwyd yn 2018.<br><br>Ar wahoddiad y Prif Swyddog Adnoddau, ychwanegodd cynrychiolydd Archwilio Cymru y cynhaliwyd yr adolygiad dilynol i sicrhau fod y Cyngor wedi ymateb yn gydnaws i'r meysydd gwella. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gyda chynllun clir yn ei le ar gyfer y dyfodol. Teimlai cynrychiolydd Archwilio Cymru felly fod yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i drin unrhyw heriau ariannol a all godi.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad sy'n dangos ymrwymiad Aelodau a Swyddogion i sicrhau y gwneir y gwelliannau gofynnol ar gyfer ein preswylwyr.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor yn adolygu canfyddiadau Archwilio Cymru, yn ystyried y cynnydd a wnaed ar y cynigion ar gyfer gwella ac yn derbyn yr adroddiad a'r atodiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol. |